YSGOL DAVID HUGHES
PORTHAETHWY

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2010/2011

YSGOL DAVID HUGHES
PORTHAETHWY

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2010/2011

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd **2010/2011**.

Y CORFF LLYWODRAETHU AM 2010/2011

CYNRYCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Dr Brian Jones	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Gwenda Mai Edwards	31.08.12
	Mr Garffild Lloyd Lewis	31.08.11
	Mrs Nerys Ann Roberts	31.08.11
	Mr John Rees Thomas	31.08.11
	Mr Eifion Lloyd Watkins	31.08.12
	Mrs Catrin Withers	31.08.12
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Meinir Davies	31.08.12
	Mrs Karen Reed	31.08.12
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Hefina Evans	31.08.11
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Eurfryn Griffith Davies	
	Cynghorydd Jim Evans	
	Cynghorydd Lewis Davies	
	Cynghorydd John Penri Williams	
	Cynghorydd Selwyn Williams	
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.12
	Parch Harri O Jones	31.08.12
	Mr Meirion Jones	31.08.11
	Dr John Meirion Davies	31.08.12
	Dr Eryl Davies	10.02.11
Cynrychiolydd Disgyblion	Miss Abbie Roberts-Parry	31.08.11

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR AM 2011/2012

yw Parch Harri O Jones a gellir cysylltu ag ef drwy'r ysgol.

1. YR YSGOL

Roedd gan Ysgol David Hughes **1132** o ddisgyblion ar ei llyfrau ym mis **Medi 2010**. Rhif mynediad yr ysgol am **2011/2012** yw **224** o ddisgyblion ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Ym mis Medi **2011** mae gennym **1117** o ddisgyblion a **77** o athrawon gyda **38** o staff cefnogol.

2. NOD AC AMCANION YR YSGOL

Nod yr ysgol, mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yw creu awyrgylch sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i'w potensial eithaf, ac wynebu'n hyderus ofynion ein cymdeithas fodern ddwyieithog.

1. Ceisio meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol gan roi sylw penodol i oddefgarwch a gofal dros eraill, yn arbennig y rhai lleiaf ffodus mewn bywyd.
2. Datblygu sylfaen o lythrennedd a gwybodaeth fathemategol, wyddonol a thechnegol i alluogi'r disgybl i ddysgu sgiliau hanfodol gwaith a hamdden ar gyfer heddiw a'r cyfnod technolegol a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol.
3. Paratoi'r disgybl i wneud cyfraniad llawn i fywyd y gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Yn achos Môn, cymdeithas ddwyieithog yw honno, felly, fe ddylid sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog os ydyw am gyrraedd y nod hwn.
4. Dysgu disgybl am gamp a dyheadau dyn yn y celfyddydau, y gwyddorau a chrefydd a'r ymchwil am gymdeithas gyfiawn.
5. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu meddwl ymchwilgar, bywiog; i holi a dadlau'n rhesymegol ac yna i ymroi i dasgau penodol.
6. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddeall sut y mae gwlad yn ennill ac yn cynnal ei safon byw gan roi sylw yn arbennig i bwysigrwydd diwydiant a byd gwaith.
7. Paratoi cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

3. DIWRNOD YSGOL

Rhennir y diwrnod fel a ganlyn:

8.45 - 9.00	Cychwyn y diwrnod Ysgol/Cofrestru
9.00 - 9.50	Gwers 1
9.50 - 10.40	Gwers 2
10.40 -10.55	Egwyl
10.55 -11.45	Gwers 3
11.45 -12.35	Gwers 4
12.35 - 1.30	Cinio
1.30 - 1.40	Cofrestru
1.40 - 2.30	Gwers 5
2.30 - 3.20	Gwers 6

Ceir ychydig o amrywiaeth ar ddydd Llun pan gynhelir cyfnod tiwtorial estynedig yn y bore.

4. CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu ar y dyddiadau a ganlyn:

20	Medi 2010
13	Rhagfyr 2010
04	Ebrill 2011
27	Mehefin 2011

20 Medi 2010

Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.
Enwebwyd Llywodraethwr Dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf ac o amrywiol ohebiaeth.
Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn ag enillwyr gwobrau ariannol blynyddol i ddisgyblion.
Ystyriwyd canlyniadau'r arholiadau allanol a'r targedau blynyddol.
Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2010/2012.

13 Rhagfyr 2010

Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli a mabwysiadwyd y polisïau a argymhellwyd gan yr Is-banel Polisïau.
Derbyniwyd adroddiad y Pennaeth yn nodi digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.
Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rhagamcan niferoedd disgyblion a rhagamcan Cyllideb 2011-2012 a thrafodwyd materion cyllidol.
Derbyniwyd prif flaenoriaethau Cynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer 2010-2012.

4 Ebrill 2011

Penderfynwyd mabwysiadu'r wisg ysgol ffurfiol Blwyddyn 12/13 ar gyfer Medi 2011 a gynigwyd gan bwyllgor o'r Chweched Ddosbarth.
Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisïau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisïau.
Trafodwyd digwyddiadau a llwyddiannau'r tymor.
Mabwysiadwyd y gyllideb am **2011/2012**.
Mabwysiadwyd y cwricwlwm am **2011/2012**.

27 Mehefin 2011

Derbyniwyd cofnodion yr Is-baneli.
Derbyniwyd adroddiad gan bob adran ar ei gwaith.
Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth am ddigwyddiadau a llwyddiannau.
Derbyniwyd prif flaenoriaethau Cynllun Datblygu/Gwella'r ysgol ar gyfer 2011-2013.
Penderfynwyd derbyn mantolen diwedd blwyddyn ar gyfer cronfa'r ysgol.
Derbyniwyd cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer cyllideb **2010/2011**.

YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Disgwyliwn felly i gyfeillgarwch, cydweithrediad a synnwyr cyffredin fod yn sail i'r gweithgaredd. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd gofyn i ddisgyblion wneud llawer o benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol. Mae llwyddiant yn yr ysgol, addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith yn gofyn am ymroddiad a gwaith caled. Er mwyn ceisio helpu'r disgyblion i gyrraedd y safon ddisgwyliedig gobeithiwn greu'r amodau a'r awyrgylch gywir o fewn yr ysgol.
Dylai pob aelod o'r ysgol ddangos parch tuag at yr aelodau eraill, disgybl tuag at ddisgybl, disgybl tuag at athro, ac aelodau o'r ysgol tuag at ymwelwyr.
Mae pob disgybl yn aelod o grŵp tiwtorial ac mae'r tiwtor dosbarth bob amser yn barod i roi cyngor, helpu gydag ymholiadau neu geisio datrys problemau.
Mae athrawon yn y dosbarth i weithio gyda'r grŵp cyfan. Fe fyddant, wrth gwrs, yn barod i roi sylw unigol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw unigolion difeddwl yn amharu ar y dosbarth.

Os oes gan unrhyw riant sylw i wneud ar y datganiad uchod gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethu trwy'r ysgol.

Yn ogystal â chyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn mae gan y Llywodraethwyr 5 Is-bwyllgor sef, Adeiladau, Cyllid a Blaenoriaethau, Lles a Phersonél, Polisïau, a Chwricwlwm a Chymunedol a chyfarfu'r rhain nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cyfarfu'r Is-banel Penodi ac Is-banel Disgyblaeth fel bo'r galw.

5. GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol a'r meysydd llafur gan y Pennaeth.
Cyhoeddir llawlyfr - Gwybodaeth i Rieni - yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Yn ogystal â hyn cynhyrchwyd llawlyfrau i rieni yn ymwneud â:

Mynediad i'r ysgol
Dewisiadau Blwyddyn 10
Mynediad i Flwyddyn 12
Disgyblaeth
Gwaith Cartref
Cyfarwyddyd Gyrfaoedd
Addysg Iechyd
Polisi Iaith

Mae Bwletin Rhieni sy'n cael ei gyhoeddi'n dymhorol yn rhoi'r wybodaeth diweddara.

6. ADEILADAU'R YSGOL

Archwiliodd y Llywodraethwyr adeiladau'r ysgol ar **6 Rhagfyr 2010.**
Cafodd yr addasiadau a ganlyn eu gwneud:

- Corlan finiau- nodwyd fod cadw biniau'n ddiogel dan glo wedi lleihau risg tân
- Adnewyddu rhai o'r ffenestri Bloc A. Y gwaith wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r grisiau a'r ystafelloedd o ran cynhesrwydd a diogelwch.
- Paentio mewnol.
- Adnewyddu'r tŷ gwydr (yn yr Adran Wyddoniaeth) - safon y gwaith yn dda a strwythur yr adeilad rŵan yn ddiogel.
- Gwaith trydanol - sub station- Cyngor Sir Ynys Môn- Cam 1. Gwaith sylweddol wedi ei wneud yng ngham 1 o'r cynllun i adnewyddu system drydanol yr ysgol. Nodwyd fod y nenfwd newydd ym mloc A a osodwyd i guddio'r ceblau wedi gwella amgylchedd y rhan yna o'r ysgol yn sylweddol.
- Trwsio tarmac o gwmpas yr ysgol – cyflwr yr iard wedi gwella.
- Toiledau Ysgol David Hughes

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi adnewyddu 4 bloc toiled. Mae'r toiledau yma yn gwbl breifat gyda drws yn ymestyn i'r nenfwd ar bob ciwbicl. Rhoddwyd camerâu CCTV i gadw golwg ar y rhan agored wrth y sinciau ym mhob toiled i sicrhau nad oes neb yn camymddwyn tuag ddisgyblion eraill nag yn difrodi'r eiddo. Cedwir y toiledau yn lan gyda chyflenwad digonol o sebon a phapur.
Bwriedir adnewyddu bloc arall pan fydd y cyllid yn caniatáu.

7. YMDDEOLIADAU A PHENODIADAU STAFF

Staff wedi gadael:

Mrs Lynne Harrison	Athrawes Y Gyfraith/Cymdeithaseg
Mr Arwyn Williams	Pennaeth Cynorthwyol
Mrs Mair Williams	Athrawes Anghenion Ychwanegol
Mrs Caroline Ellis	Goruchwylwraig Cinio
Miss Gemma Humphreys	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu

Penodwyd y rhai a ganlyn:

Miss Ceri Roberts	Athrawes Addysg Grefyddol (yn ystod cyfnod mamolaeth)
Mr Alasdair Robertson	Athro Mathemateg (yn ystod cyfnod mamolaeth)
Miss Lois Eluned Roberts	Athrawes Y Gyfraith
Mr Matthew Francis Owen	Athro Cefnogi Dysgu
Mrs Nicola Parry	Cymhorthydd Lefel Uwch
Mr John Rhys Harrison	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Miss Ceri Ann Geal	Cymhorthydd Cefnogi Dysgu
Mr Paul M Jones	Swyddog Cefnogi/Cwnselydd

8. CYSWLLT CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU

- Trefnwyd nifer o ymweliadau addysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu defnydd cymunedol cyson o'r ysgol a'r Ganolfan Hamdden.
- Drwy'r Ffair a Raffl Nadolig y Cyfeillion cyfrannwyd at fywyd cymdeithasol, elusennol a diwylliannol. Aeth elw'r gweithgareddau eleni at brynu adnoddau newydd i'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithredu Cynllun Profiad Gwaith a chafodd pob disgybl ym Mlwyddyn 10 a 12 leoliad profiad gwaith ar ddiwedd Tymor yr Haf.
- Cafwyd cymorth yn ystod y flwyddyn gan asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.
- Trefnwyd gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch yn ystod Tymor yr Haf.
- Mae disgyblion o'r ysgol yn gwneud gwaith gwirfoddol yn lleol.
- Mae nifer fawr o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol tu allan i oriau'r ysgol, ee chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, ayyb.
- Bu ymdrech i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i esbonio polisi a threfn fel a ganlyn:
  - Bwletin Rhieni
  - Cyfarfod rhieni ar gyfer pob blwyddyn ysgol
  - Cyfarfod i drafod mynediad i Flwyddyn 12/Opsiynau 16+
  - Cyfarfod i drafod dewisiadau Blwyddyn 10
  - Cyfarfod i drafod mynediad i golegau
  - Ymwelwyd â holl ysgolion cynradd y dalgylch i drafod trosglwyddo cynradd-uwchradd
  - Cyfarfod gyda rhieni disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd er mwyn gwneud y broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn un esmwyth.
  - Cefnogwyd amryw o elusennau yn ystod y flwyddyn.
  - Trefnwyd prosiectau cwricwlaidd gyda diwydiannau lleol.

9. LLWYDDIANNAU'R FLWYDDYN

Hysbysir rhieni yn rheolaidd am lwyddiannau'r ysgol drwy'r Bwletin Rhieni a'r dulliau cyfathrebu arferol ee Papur Menai.

10. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL YR ADRAN ADDYSG GORFFOROL 2010/2011

Pêl-droed

Eto eleni bu timau o bob grŵp oedran yn cynrychioli'r ysgol, gyda'r timau dan 12, dan 14, dan 16 a dan 18 yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Eryri.

Cadwyd y traddodiad o bob tîm yn mynd ymlaen i gamau olaf y gystadleuaeth. Mae'r tîm dan 12 yn grŵp addawol iawn o unigolion ac roeddent yn anlwcus o golli yn y rownd gogynderfynol o un gôl hwyr, ond aethant ymlaen i guro pob un o'u gemau cynghrair yn erbyn ysgolion yr ynys. Chwaraeodd y tîm dan 14 eu gemau cwpan i gyd oddi cartref gan gyrraedd y rownd gynderfynol, ac roeddent yn anlwcus dros ben i golli ar giciau cosb wedi penderfyniad dadleuol i beidio caniatáu gôl a allai fod wedi ennill y gêm!! Tanberfformiodd y tîm dan 16 yn eu cystadleuaeth gwpan, gan ildio eu harweiniad 3 gôl, ond gwnaethant i fyny am hyn yn eu gemau cyfeillgar, gan eu hennill i gyd. Mae nifer o'r chwaraewyr wedi camu i fyny ac maent bellach yn chwarae'n rheolaidd yn eu timau cynghrair uwch lleol.

Cafodd y tîm dan 18 rediad cryf yn y cwpan gan gyrraedd y rownd gynderfynol yn adran Eryri.

Chwaraeodd y grwpiau oedran eraill (dan 13, dan 15) ysgolion lleol mewn gemau cyfeillgar. Yn ogystal â gemau cwpan a gemau cyfeillgar, bu'r timau yn hyfforddi gydol y tymor pêl-droed. Roedd y niferoedd oedd yn mynychu sesiynau hyfforddi yn uchel iawn, pob un yn dangos ymroddiad a brwdfrydedd.

Fel adran teimlwn ein bod wedi cael tymor llwyddiannus iawn ar y cae pêl-droed. .

Rygbi

Yn ystod tymor yr hydref cynrychiolodd y timau dan 14 a dan 16 yr ysgol yng nghynghrair Môn sydd newydd ei hail-ffurfio. Perfformiodd y ddau dîm yn dda iawn, gyda'r tîm dan 14, yn cael ei hyfforddi gan Mr Peter Marshall, yn ennill hanner ei gemau gan chwarae rygbi agored, deniadol. Cafodd y tîm dan 16, a hyfforddwyd gan Mr Geraint Llŷn, dymor cryf a datblygodd pob aelod o'r garfan fel chwaraewr dros y flwyddyn. Mae chwe aelod allweddol o'r tîm wedi eu dewis ar gyfer tîm Eryri.

Ar ôl y Nadolig cynrychiolwyd yr ysgol gan dri thîm.

- **Dan 13**
  Chwaraeodd y tîm yng nghystadleuaeth cwpan Eryri gan chwarae'n arbennig o dda, a chyrraedd y rownd gynderfynol gan golli i dîm yn llawn o chwaraewyr clwb. Chwaraeodd llawer o ddisgyblion rygbi i'r ysgol am y tro cyntaf eleni ac mae tîm addawol yn datblygu.

- **Dan 15**
  Mae hwn yn grŵp dawnus iawn o unigolion a chawsant rediad da iawn yng nghwpan Eryri, gan golli yn y rownd gynderfynol ar ôl chwarae yn erbyn timau cryf.
- **XV Cyntaf**: Hyfforddodd y tîm gydol y flwyddyn, gan chwarae yn y gystadleuaeth cwpan. Chwaraewyd eu gemau nhw yng Nghlwb Rygbi Porthaethwy.

Pêl-fasged

Roedd pêl-fasged yn boblogaidd iawn eto gyda'r disgyblion. Aeth Mr Edward Jones â thimau dan 15 a dan 13 i gystadleuaeth flynyddol ysgolion Eryri. Chwaraeodd y tîm dan 15 yn dda yn eu gemau grŵp, ond ni chyrhaeddwyd y rowndiau dileu. Chwaraeodd y tîm dan 13 yn arbennig o dda a daethant yn ail mewn trechiad terfynol basged unigol.

Criced

Cyrhaeddodd y tîm criced dan 4 rownd derfynol twrnamaint Criced Eryri Colts (y rownd derfynol i gael ei chwarae'r tymor hwn oherwydd tywydd gwael). Mae nifer o chwaraewyr yn chwarae mewn timau lleol ac maent yn datblygu yn chwaraewyr criced dawnus.

Gymnasteg

- Cynhelir Clwb Gymnasteg ddwywaith yr wythnos gan Miss Sera Evans a chynhelir clybiau ychwanegol gan staff yr adran cyn cystadlaethau.
- Cymerodd nifer o ddisgyblion ran yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Nofis a Chanolradd Ysgolion Eryri yng Nghaernarfon.
- Daeth tîm nofis bechgyn bl. 7 yn 1af, tîm genethod bl. 8 yn 2il, tîm canolradd bl. 9+ yn 3ydd a chafodd sawl unigolyn wobrau.
- Yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Brofiadol Ysgolion Eryri ym Mhenygroes, dychwelodd nifer o gymnastwyr gyda medalau.

Pêl-rwyd Merched

- Mae yna dimau ar gyfer pob grŵp oedran o fl. 7 i fl. 11 a hefyd timau dan 14, dan 16 a dan 18.
- Chwaraewyd gemau pob wythnos gan wahanol dimau.
- Dangosodd tîm A bl.7 addewid mawr gan iddynt guro eu holl gemau, gan gynnwys gêm yn erbyn ysgol o Brighton a oedd ar daith yn yr ardal.
- Mae'r tîm bl. 11 hefyd wedi cael llwyddiant mawr, yn curo eu holl gemau heblaw am y gêm Eryri derfynol.
- Chwaraeodd y timau dan 14, dan 16 a dan 18 yn Nhwrnamaint Môn ac aethant i gyd trwodd i gemau terfynol Eryri. Daeth y timau dan 14 a dan 18 yn 3ydd yn y twrnamaint, daeth y tîm dan 16 yn ail.
- Dewiswyd Gwenan Williams bl.11 ar gyfer Carfan Eryri

Athletau Dan Do

- Cymerodd pedwar tîm ran ym Mhlas Arthur, Llangefni.
- Dewiswyd 13 disgybl i gynrychioli Tîm Gogledd Cymru yng Nghystadleuaeth Cymru yng Nghwmbran.
- Dewiswyd Connor Laverty i gynrychioli Cymru ym Mirmingham.

Athletau

Cymerodd timau ran mewn dwy Gystadleuaeth Môn yn Nhreborth.

- Aeth nifer ymlaen i gystadleuaeth unigolion Eryri. Cynrychiolodd 5 disgybl Eryri ym Mhencampwriaeth Cymru yn Aberhonddu.
- Daeth Connor Laverty yn 3^{ydd} yng Nghymru am daflu pwysau.
- Yn y gystadleuaeth tîm curodd y Genethod dan 13 ym Môn ac aethant ymlaen i Eryri.

Dawns

- Perfformiodd grŵp o enethod mewn 'Noson o Ddawns' a gynhaliwyd yn Galeri, Caernarfon. Roedd y noson yn ddathliad o Ddawns ac roedd yn arddangos gwaith grwpiau dawns ar hyd a lled Gwynedd a Môn. Cyfarwyddwyd y grwpiau gan Ffion Thomas, sydd yn hyfforddi dan y rhaglen 5 x 60.

11. GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2011/2012

TYMOR	GWYLIAU
HYDREF 2011	01 Medi 2011 (Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion)
01 Medi –	24 - 28 Hydref 2011 (Hanner Tymor)
16 Rhagfyr	19 Rhagfyr 2011 – 02 Ionawr 2012 (Gwyliau'r Nadolig)
GWANWYN 2012	
3 Ionawr –	13 – 17 Chwefror 2012 (Hanner Tymor y Gwanwyn)
30 Mawrth	2 - 13 Ebrill 2012 (Gwyliau'r Pasg)
HAF 2012	
16 Ebrill –	7 Mai 2012 (Calan Mai)
19 Gorffennaf	4 - 8 Mehefin 2012 (Hanner Tymor y Sulgwyn)
	20 Gorffennaf – 31 Awst 2012 (Gwyliau'r Haf)

12. CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Mae canlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer **Haf 2011** yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen SSSP, sef **PAPUR A**. Mae'r ffurflenni yn dangos perfformiad yr ysgol o'i gymharu â rhai o'r targedau cenedlaethol.
Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y canlyniadau ardderchog sy'n adlewyrchu gwaith caled a llwyddiant y bartneriaeth allweddol rhwng yr athrawon, y disgyblion a'u rhieni. Byddwn yn anelu at gynnal y safonau uchel hyn yn y dyfodol.

13. CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 3 A THARGEDAU AR GYFER 2011-2012

Gweler **PAPUR B** sydd yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

14. CYLLIDEB 2010-2011

Gweler y ddogfen ddwyieithog **PAPUR C** am fanylion am gyllideb **2010/2011**.

15. HYNT DISGYBLION

Gweler **PAPUR D**.

16. PRESENOLDEB DISGYBLION

Gweler **PAPUR E**.
Targed Presenoldeb 2011/2012 = 93.5%

17. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae polisi'r ysgol yn seiliedig ar hawl pob disgybl i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn Ysgol David Hughes caiff disgyblion eu hintegreiddio mor llwyr ag y mae'n bosibl i ddosbarthiadau prif ffrwd. Lle y ceir anawsterau neilltuol yn y pynciau craidd, Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gwneir darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau llai lle y gall disgyblion dderbyn mwy o sylw unigol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn.
Caiff disgyblion y mae arnynt angen cymorth y tu hwnt i'r mwyafrif o'u cyfoedion eu hystyried yn ddisgyblion ag Anghenion Ychwanegol. Gallent amrywio o ddisgyblion sydd ar ddatganiad Anghenion Ychwanegol yr AALl ac sy'n derbyn cymorth penodol i ddisgyblion sy'n cael anhawster mewn un maes cwricwlwm yn unig. Gallent fod yn anawsterau corfforol, neu emosiynol yn ogystal ag anawsterau academaidd.
Mae'r cydweithrediad agos rhwng Penaethiaid Adrannau a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Ychwanegol yn arwain at fonitro cynnydd yn fanwl a lle ceir achos o bryder, gellir gweithredu'n syth.
Anogir cadw cysylltiad agos rhwng rhieni disgyblion Anghenion Ychwanegol a'u hathrawon. Gellir monitro disgyblion unigol hefyd drwy Nosweithiau Rhieni ac asesiadau dair gwaith y flwyddyn.

Cynigir hefyd gymorth ychwanegol i ddisgyblion y tu allan i'r amserlen ffurfiol. Gweithredir cynllun darllen ar y cyd bob bore yn ystod y cyfnod cofrestru pan fydd disgyblion yr ysgol iau yn ymarfer darllen gydag aelod o Flwyddyn 12. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn wrth ysgogi darllenwyr gwan neu gyndyn i gynyddu eu gallu a'u mwynhad wrth ddarllen. Yn ystod pedwar amser cinio'r wythnos cynhelir clybiau a grwpiau cymorth amrywiol sy'n cynnig cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Clybiau megis y Clwb Gwaith Cartref a'r Grŵp Cynnal Dyslecsia wedi dod yn boblogaidd ymhlith disgyblion sydd erbyn hyn yn eu mynychu'n wirfoddol. Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn ymuno'n llawn yn holl weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yr ysgol ac anogir hwy i gymryd rhan gyflawn ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol a chael budd o wneud hynny.

18. DISGYBLION ANABL

Mae Ysgol David Hughes yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Addysg a'r asiantaethau perthnasol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.

19. GWEITHREDU AC ADOLYGU STRATEGAETHAU'R YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Ysgol sy'n cynnwys blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cyswllt gyda'r gyllideb yn holl bwysig ac mae nifer o'r strategaethau datblygol wedi eu costio'n fanwl.
Mae crynodeb o'r blaenoriaethau ar gael yn yr ysgol.

20. Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YN YR YSGOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2B, sydd yn golygu, addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rheini yn y naill iaith a'r llall.

Ar gyfer disgyblion sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iaith Ysgolion Ynys Môn, a gafodd ei ffurfioli yn 1998, a'i phrif amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog.

Ei amcan yw sicrhau bod pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn unol â gallu ieithyddol pob unigolyn, er mwyn sicrhau parhad addysg ddwyieithog ar ôl y cynradd.

21. Y CORFF LLYWODRAETHU O 1 MEDI 2011

Mae'r Corff Llywodraethu o **1 Medi 2011** yn unol â'r rhestr isod.
Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer rhieni-lywodraethwyr pan fydd cyfnodau'r aelodau presennol yn dod i ben.

CYNRYCHIOLAETH:	**ENW:**	**HYD AT:**
Pennaeth	Dr Brian Jones	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Gwenda Mai Edwards	31.08.12
	Mr John Rees Thomas	31.08.15
	Mr Eifion Lloyd Watkins	31.08.12
	Mrs Catrin Withers	31.08.12
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Meinir Davies	31.08.12
	Mrs Karen Reed	31.08.12
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Hefina Evans	31.08.15
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Eurfryn Griffith Davies	
	Cynghorydd Jim Evans	
	Cynghorydd Lewis Davies	
	Cynghorydd John Penri Williams	
	Cynghorydd Selwyn Williams	
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.12
	Parch Harri O Jones	31.08.12
	Mr Meirion Jones	31.08.15
	Dr John Meirion Davies	31.08.12
	Dr Eryl Davies	31.08.15
Cynrychiolwyr Disgyblion	Miss Cara Mai Hope	31.08.12
	Mr William Jonathan Marston	31.08.12

YSGOL DAVID HUGHES
MENAI BRIDGE

THE GOVERNORS' REPORT FOR THE ACADEMIC YEAR 2010/2011

This report is presented to parents. It is a summary of how the Governors fulfilled their duties during the **2010/2011** academic year.

THE GOVERNING BODY FOR 2010/2011

REPRESENTATIVE	NAME	EFFECTIVE UNTIL:
Headteacher	Dr Brian Jones	
Parents' Representatives	Mrs Gwenda Mai Edwards	31.08.12
	Mr Garffild Lloyd Lewis	31.08.11
	Mrs Nerys Ann Roberts	31.08.11
	Mr John Rees Thomas	31.08.11
	Mr Eifion Lloyd Watkins	31.08.12
	Mrs Catrin Withers	31.08.12
Teachers' Representatives	Mrs Meinir Davies	31.08.12
	Mrs Karen Reed	31.08.12
Support Staff Representative	Mrs Hefina Evans	31.08.11
Local Education Authority Representatives	Councillor Eurfryn Griffith Davies	
	Councillor Jim Evans	
	Councillor Lewis Davies	
	Councillor John Penri Williams	
	Councillor Selwyn Williams	
Co-opted Members	Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.12
	Rev Harri O Jones	31.08.12
	Mr Meirion Jones	31.08.11
	Dr John Meirion Davies	31.08.12
	Dr Eryl Davies	10.02.11
Pupils' Representative	Miss Abbie Roberts-Parry	31.08.11

THE CHAIRMAN OF THE GOVERNORS FOR 2011/2012

is Rev Harri O Jones and he may be contacted through the school.

1. THE SCHOOL

Ysgol David Hughes had **1132** pupils on the school roll in September **2010**. The prescribed admission number for **2011/2012** is **224** pupils for each school year group. In September **2011** we have **1117** pupils and **77** teachers and **38** support staff.

2. THE SCHOOL'S AIM AND OBJECTIVES

The school aims, in partnership with pupils, parents and governors to create an atmosphere that will allow all pupils to develop to their full potential and, in doing so, meet the needs and demands of our changing bilingual society.

1. To seek to nurture a civilised society, which stresses human and moral values, paying special attention to tolerance and compassion for others, particularly the least fortunate in life.
2. To develop a basis of literacy and mathematical, scientific and technical knowledge which will enable the pupil to learn the essential skills of work and leisure for today's needs and those of the technological society with which they will be faced in the future.
3. To prepare the pupil to make a full contribution to the life of the society of which he/she is a part. In the case of Anglesey that is a bilingual society and it is, therefore, necessary to ensure that every pupil has the opportunity to learn to communicate verbally and in writing in both languages.
4. To teach pupils about human achievements and aspirations in the arts, the sciences, religion and the search for a just society.
5. To assist pupils to develop enquiring, lively minds; to question and to argue logically and then to undertake specific tasks.
6. To assist pupils to understand how a country earns and maintains its standards of living, paying particular attention to the importance of industry and employment.
7. To prepare a broad, balanced, relevant and differentiated curriculum.

3. THE SCHOOL DAY

The school day is divided as follows:

8.45 - 9.00	Start of the School Day/Registration
9.00 - 9.50	Lesson 1
9.50 - 10.40	Lesson 2
10.40 -10.55	Break
10.55 -11.45	Lesson 3
11.45 -12.35	Lesson 4
12.35 - 1.30	Lunch
1.30 - 1.40	Registration
1.40 - 2.30	Lesson 5
2.30 - 3.20	Lesson 6

There is a little variation on Mondays when an extended tutorial period is held in the morning.

4. GOVERNING BODY MEETINGS

To fulfil its duties the Governing Body met on the following dates:

20	September 2010
13	December 2010
04	April 2011
27	June 2011

20 September 2010

A Chairman and Vice-chariman were elected.
A designated Additional Learning Needs Governor was nominated.
Matters arising from the last minutes were discussed as well as various correspondences.
Information was shared about annual awards for pupils.
External examination results and annual targets were discussed.
The school's priorities for 2010/2012 were discussed.

13 December 2010

The minutes of the sub-committees were received and the policies recommended by the Policies Sub-committee were adopted.
The Head's report noting the school's events and successes was received.
The latest information about pupil number projections and 2011-2012 Finance projections were presented and was discussed along with financial matters.
The main priorities of the School Development Plan for 2010-2012 were received.

4 April 2011

It was decided to adopt the new Year 12/13 school uniform for September 2011 which was presented by the Sixth Form committee.
The minutes of the Sub-committees were accepted, and it was decided that the policies recommended by the Policies Sub-committee should be adopted.
The term's events and successes were discussed.
The budget for **2011/2012** was approved and adopted.
The curriculum for **2011/2012** was approved and adopted.

27 June 2011

The minutes of the sub-committees were accepted.
Annual reports were received from all departments on their work.
The Head reported on the term's events and successes.
The School Development Plan main objectives for **2011/2013** was approved.
The school fund final balance-sheet for the year was accepted.
End of year accounts for the **2010/2011** budget were accepted**.**

BEHAVIOUR AND DISCIPLINE – GENERAL PRINCIPLES

Ysgol David Hughes is a secondary school for young people of 11 - 18 years of age. We therefore expect friendship, co-operation and common sense to be the basis for our activities. During their period in school pupils will be required to make many decisions concerning their future. Success in school, further education, training or the world of work requires commitment and hard work. In order to help pupils to attain the expected standards we hope to create the correct conditions and atmosphere within the school.
Every member of the school should show respect towards other members, pupil towards pupil, pupil towards teacher, and members of the school towards visitors.
Every pupil is a member of a tutorial group and the class tutor is always willing to advise, help with enquiries or try to solve a problem.
Teachers are in the classroom to work with the whole group. They are, of course, willing to give individual attention during this period. It is important, however, that thoughtless individuals do not interrupt the class.

If any parent has a comment to make on the above statement you are requested to contact the Chairman of the Governing Body via the Clerk to the Governors.

As well as meetings of the full Governing Body the Governors have 5 Sub-committees, namely, Buildings, Finance and Priorities, Welfare and Personnel, Policies, and Curriculum and Community which met several times during the year. There were also a number of meetings of the Appointments Panel and Disciplinary Panel.

5. INFORMATION FOR PARENTS

Details of the school's curriculum and syllabuses can be obtained from the Headteacher.
A booklet - Information for Parents - is published annually and contains information on the school's organisation and rules. Booklets dealing with the following matters are also produced for parents:

Admission to the School
Year 10 Options
Admission to Year 12
Discipline
Homework
Careers Guidance
Health Education
Language Policy

Parents' Bulletin which is issued termly provides the latest information.

6. SCHOOL BUILDINGS –

The Governors inspected the school buildings on **6 December 2010**. The following adaptations have been undertaken:

- Bin Compound – bins are now safely under lock to reduce the risk of fire.
- Replace some of A Block windows. The work done has made a substantial difference to the stairs and rooms in respect of warmth and safety
- Some classrooms were painted.
- Refurbish the Greenhouse (in the Science Department). The quality of work is excellent and the structure of the building is now safe.
- Electrical Work – sub-station –Anglesey County Council – Phase 1. A substantial amount of work has been done in Phase 1 of the plan to renew the school's electrical system. It was noted that the new ceiling in A Block which was installed to hide the cables had improved the environment of this area substantially.
- Repair the tarmac around the school – condition of the yard has now improved.
- Ysgol David Hughes Toilets

The school has invested substantially over recent years and have replaced 4 toilet blocks. These toilets are totally private with doors reaching up to the ceiling in each cubicle. CCTV Cameras monitor the open area where the washbasins are in each block to ensure that nobody misbehaves towards other pupils or causes damage. The toilets are kept clean with sufficient supply of soap and paper. It is intended to replace another toilet block when finances allow.

7. STAFF RETIREMENTS AND APPOINTMENTS

Staff who have left:

Mrs Lynne Harrison	Law/Sociology Teacher
Mr Arwyn Williams	Assistant Headteacher
Mrs Mair Williams	Special Needs Teacher
Mrs Caroline Ellis	Lunchtime Supervisor
Miss Gemma Humphreys	Learning Support Assistant

The following staff were appointed:

Miss Ceri Roberts	Religious Studies Teacher (during a period of maternity leave)
Mr Alasdair Robertson	Mathematics Teacher (during a period of maternity leave)
Miss Lois Eluned Roberts	Law Teacher
Mr Matthew Francis Owen	Learning Support Teacher
Mrs Nicola Parry	Higher Level Assistant
Mr John Rhys Harrison	Learning Support Assistant
Miss Ceri Ann Geal	Learning Support Assistant
Mr Paul M Jones	School Support Counsellor

8. LIAISON WITH THE COMMUNITY AND EVENTS

- A number of educational visits were organised during the year.
- Regular community use was made of the school and the Sports Centre.
- The Christmas Fair and Raffle contributed to social, cultural and charity aspects of school life. The proceeds of this year's activities went towards the purchase of new resources for the school.
- The school operates a Work Experience Scheme and every pupil in Year 10 and 12 was given a placement at the end of the Summer Term.
- Assistance was given during the year by external agencies such as the Social Services and the Police.
- After school activities were arranged for Year 6 pupils in the school's catchment area during the Summer Term.
- Pupils from the school have been participating in voluntary work in the local area.
- Many pupils participated in local activities outside school hours, eg sports, eisteddfodau, concerts, etc.
- An effort was made to ensure effective communication with parents and a number of meetings were held to explain policy and procedure as follows:
  - Parents' Bulletin
  - A parents' meeting for each school year
  - A meeting to discuss admission into Year 12/16+ Options
  - A meeting to discuss Year 10 options
  - A meeting to discuss college applications and admissions
  - Each feeder primary school was visited to discuss primary-secondary transfer
  - A meeting with parents of Year 6 primary pupils to discuss primary-secondary transfer to ensure comfortable transfer.
  - Several charities were supported during the year.
  - Curricular projects were organised with local industries.

9. THE YEAR'S SUCCESSES

Information on the school's successes is passed regularly to parents through the Parents' Bulletin, Papur Menai etc.

10. PHYSICAL EDUCATION DEPARTMENT EXTRA CURRICULAR ACTIVITIES 2010/2011

Football

Again this year teams at all age groups represented the school. The under 12's, 14's, 16's and 18's entering the Eryri Competition.

All teams carried on the tradition of progressing to the latter stages of the competition, The under 12's are a very promising group of individuals and were unlucky to lose in their quarter final by one late goal, then went on to win each of their league games against the island schools. The under 14's played all their cup games away and made the semi finals, and were extremely unlucky to lose on penalties, after a controversial decision to disallow a match winning goal!! The under 16's under-performed in their cup competition, throwing away a 3 goal lead, but made up for it with their friendly games, winning each of them. A number of the players have made the step up and are now regulars in their local senior league team.

The under 18's had a strong cup run and reached the semi final of the Eryri section.

The other age groups (13's, 15's) played local schools in friendly matches. As well as cup games and friendly fixtures, all teams trained throughout the season. The number of pupils attending the training sessions was very high, each showing commitment and enthusiasm.

As a department we feel we have had a very successful season on the football pitch.

Rugby

During the autumn term the under 14's and 16's represented the school in the newly reformed Môn league. Both teams performed really well, with the Under 14's, coached by Mr Peter Marshall, winning half of their games playing attractive open rugby. The under 16's, coached by Mr Geraint Llŷn, had a strong season and each member of the squad has developed over the year. Six key members of the team have been selected for the Eryri team.

After Christmas three teams represented the school.

- **Under 13**
  The team entered the Eryri cup competition and played extremely well, reaching the semi final, losing to a team full of club players. A lot of pupils played rugby for the school for first time this year and a promising team is developing.

- **Under 15**
  This is a very talented group of individuals who had a very good cup run in the Eryri cup, losing in the semi final, having had a difficult draw to navigate.
- **First XV**
  The team trained throughout the year, and played in the cup competition, their games are played at Clwb Rygbi Porthaethwy.

Basketball

Basketball again was very popular with the pupils. Mr Edward Jones took teams at under 15's and under 13's age group to the annual Eryri schools competition, the under 15's played well in their group games, but didn't make it to the knockout stage. The under 13's played exceptionally well and were runners up in a single basket final defeat.

Cricket

The under 14's Cricket team reached the Eryri Colts Cricket tournament final (final to be played this season due to the bad weather). A number of players play in local teams and are developing into talented cricket players.

Gymnastics

- A Gymnastics Club is held twice a week by Miss Sera Evans and extra clubs are held by P.E. staff prior to competitions
- Many pupils took part in the Eryri Schools Novice and Intermediate Gymnastics Competition at Caernarfon
- The year 7 novice boys team came 1st, year 8 girls team 2nd, year 8 team 3rd, year 9+ intermediate team 3rd and several individuals won prizes.
- In the Eryri Schools Experienced Gymnastics Competition at Penygroes, several gymnasts came back with medals

Girls Netball

- There are teams for each year group from year 7 to year11 and also U.14, U16 and U.18 teams.
- Matches were played every week for the different teams
- The yr 7 (A team) show great promise as they have won all their matches, including a match against a school from Brighton who were on tour in the area
- The yr 11 team have also had great success, winning all their matches apart from the Eryri final
- The U.14, U.16 and U.18 played in the Anglesey Tournament and all went through to the Eryri final. The U.14 and U.18 came 3rd in the tournament, the U.16 were runners up
- Gwenan Williams year11 was selected for the Eryri Squad

Indoor Athletics

- Four teams took part in Plas Arthur, Llangefni.
- 13 pupils were selected to represent the North West Wales Team in the Welsh Competition in Cwmbran.
- Connor Laverty was chosen to represent Wales in Birmingham.

Athletics

Teams took part in two Anglesey Competitions at Treborth.

- Several went on to the individual Eryri competition. 5 pupils represented Eryri in the Welsh Championship in Brecon. Connor Laverty came 3rd in Wales for throwing the shot.
- In the team competition the U.13 Girls won the Anglesey Competition and went on to Eryri.

Dance

- A group of girls performed in an "Evening of Dance" held at the "Gallery", Caernarfon. The evening was a celebration of Dance and showcased the work of dance groups throughout Gwynedd and Môn. The groups were instructed by Ffion Thomas, who coaches for the 5 x 60 programme.

11. SCHOOL HOLIDAYS FOR PUPILS FOR 2011/2012

TERM	HOLIDAYS
AUTUMN 2011 01 September – 16 December	01 September 2011 (Teacher Training Day – no school for pupils) 24 – 28 October 2011 (Autumn Half Term) 19 December 2011 – 02 January 2012 (Christmas Holidays)
SPRING 2012 3 January – 30 March	13 – 17 February 2012 (Spring Half Term) 2 – 13 April 2012 (Easter Holidays)
SUMMER 2012 16 April – 19 July	7 May 2012 (May Day) 4 – 8 June 2012 (Whitsun Half Term) 20 July – 31 August 2012 (Summer Holidays)

12. EXAMINATION RESULTS

The Welsh Assembly Government publishes the school's examination results on SSSP forms for Summer 2011 - see **PAPER A**. This information shows how the school is performing against some of the national targets.

As a school we rejoice in the excellent examination results, which reflect, not only hard work and effort, but also the success of partnerships between teachers, pupils and parents. We aim to maintain these high standards in future.

13. KEY STAGE 3 RESULTS AND TARGETS FOR 2011/2012

See **PAPER B** which provides information on pupils' end of Key Stage 3 results.

14. 2010/2011 BUDGET

See the bilingual document **PAPER C** for details of the **2010/2011** budget.

15. PUPIL DESTINATIONS

See **PAPER D**.

16. PUPILS' ATTENDANCE

See **PAPER E**

Attendance Target 2011/2012 = 93.5%.

17. ADDITIONAL LEARNING NEEDS

The school policy is based on the right of every pupil to take advantage of a broad and balanced curriculum including the National Curriculum. At Ysgol David Hughes pupils are integrated as fully as possible into mainstream classes. Where there are particular difficulties in the core subjects of English, Welsh and Mathematics, provision is made for smaller classes where pupils can receive more individual attention to enable them to achieve their full potential.

Pupils who require help over and above the majority of their peers are considered to have Additional Needs. They can range from pupils with an LEA statement of Additional Needs who receive specific support, to pupils who experience difficulty in only one area of the curriculum. Difficulties may be physical or emotional as well as academic.

Close co-ordination between Heads of Department and the Additional Needs Co-ordinator means that progress is monitored closely and when there is cause for concern prompt action is taken.

Close contact between parents of Additional Needs pupils and their teachers is encouraged. Also, through Parents Evenings and twice yearly assessments, individual pupils can be monitored.

Additional support is also offered to pupils outside the formal timetable. There is a paired reading scheme in operation every morning during registration where pupils in the lower school practice reading skills with a member of Year 12.

The scheme has proved very successful in motivating poor or reluctant readers to increase their ability and enjoyment of reading. During four lunchtimes a week various clubs and support groups offering additional support for pupils with additional learning needs. Clubs such as the Homework Club and Dyslexia Support Group have become popular amongst pupils who now attend them voluntarily. Additional Needs pupils participate fully in all the cultural and social activities of school and are encouraged to take a full and rewarding part in every aspect of school life.

18. DISABLED PUPILS

Ysgol David Hughes works closely with the Local Education Authority and relevant agencies to prevent disabled pupils being treated less favourably than other pupils.

19. IMPLEMENTING AND REVIEWING SCHOOL STRATEGIES

The Governing Body has adopted the School Development Plan, which contains the school's priorities for the following year. The link with the school budget is very important and a number of the development strategies have been carefully costed.

A summary of the main priorities is available in the school.

20. USE OF THE WELSH LANGUAGE IN SCHOOL

Ysgol David Hughes is a bilingual secondary school Category 2B, which means that, at least 80% of subjects (excluding Welsh and English) are taught through the medium of Welsh but are also taught through the medium of English.

The day to day language or languages of the school will be determined by its linguistic context. Both languages are used to communicate with pupils and for the school's administration. A high priority is given to creating a Welsh ethos. The school communicates with parents in both languages.

For pupils following the maximum number of courses through the medium of Welsh, the normal expectation is that assessment at KS3 and KS4 would be through the medium of Welsh in those subjects and that they would be able to progress easily to post 16 provision through the medium of Welsh in their chosen subjects.

The school follows the Anglesey Schools' Language Policy that was formalised in 1998, and its basic objective is to develop the ability of the county's pupils and students to be confidently bilingual.

It aims to ensure that each pupil uses both languages as a learning medium in various degrees according to the linguistic ability of the individual in order to ensure the continuation of the bilingual education from primary school.

21. THE GOVERNING BODY FROM 1 SEPTEMBER 2011

The Governing Body from **1 September 2011** is as shown below.
The next election for parent-governors will be held when the present members' term of office expires.

REPRESENTATIVE	NAME	EFFECTIVE UNTIL:
Headteacher	Dr Brian Jones	
Parents' Representatives	Mrs Gwenda Mai Edwards	31.08.12
	Mr John Rees Thomas	31.08.15
	Mr Eifion Lloyd Watkins	31.08.12
	Mrs Catrin Withers	31.08.12
Teachers' Representatives	Mrs Meinir Davies	31.08.12
	Mrs Karen Reed	31.08.12
Support Staff Representative	Mrs Hefina Evans	31.08.15
Local Education Authority Representatives	Councillor Eurfryn Griffith Davies	
	Councillor Jim Evans	
	Councillor Lewis Davies	
	Councillor John Penri Williams	
	Councillor Selwyn Williams	
Co-opted Members	Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.12
	Rev Harri O Jones	31.08.12
	Mr Meirion Jones	31.08.15
	Dr John Meirion Davies	31.08.12
	Dr Eryl Davies	31.08.15
Pupils' Representatives	Cara Mai Hope	31.08.12
	William Jonathan Marston	31.08.12